

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Gwynedd

Adroddiad Asesu Blynyddol 2017-18

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi'n seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn natganiadau blynyddol Gwynedd, astudiaethau achos ac adroddiadau naratif a gyflwynwyd i Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Mae Gwynedd wedi bodloni pob un o'r 12 hawliad craidd yn llawn.

O'r 10 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, mae Gwynedd wedi cyflawni 9 yn llawn, ac 1 yn rhannol.

Mae gwasanaeth llyfrgell Gwynedd wedi parhau i berfformio'n dda, gyda gwelliannau mewn sawl maes. Mae presenoldeb yn yr holl sesiynau a gweithgareddau / digwyddiadau hyfforddi wedi cynyddu, gan adlewyrchu'n dda ar ddatblygiad rhaglenni'r gwasanaeth, er yr ymddengys yn barod y bydd yn her i'r gwasanaeth barhau i berfformio ar y lefel hon. Er gwaethaf y dirywiad yn rhai o'r dangosyddion ar gyfer defnyddwyr, mae cyfraddau boddhad cwsmeriaid gyda'r gwasanaeth yn parhau i fod yn uchel iawn. Cafodd y cynnydd yng nghyllideb deunyddiau ar gyfer 2017-18 ei groesawu, ac roedd y targedau hyn wedi'u cyrraedd, ac roedd yna bwyslais parhaus ar ddarpariaeth / adnoddau'r Gymraeg o gofio bod y gwasanaeth yn arwain mentrau Cymru gyfan hefyd. Er bod lefelau staffio wedi gwella, nodir y gallai fod gofyn adolygu'r staffio proffesiynol yn y dyfodol - byddai hyn yn gryn siom o gofio'r heriau presennol yn sgil y cyfyngiadau o ran staff, er y nodir y pwyslais ar hyfforddi a datblygu staff, a gwarchod gwasanaethau rheng flaen.

- Cwblhawyd arolygon defnyddwyr yn ystod 2017 gan ddangos bod y cyfraddau boddhad uchel yn parhau. Mae 92% o bobl ifanc yn credu bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu, ac mae 92% o oedolion (wedi cynyddu 70% ers mis Hydref 2016) yn credu ei bod yn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau.
- Mae presenoldeb mewn sesiynau hyfforddi ffurfiol wedi gwella, ac mae'r niferoedd a gynorthwyir gan hyfforddiant anffurfiol wedi cynyddu'n sylweddol a bellach mae'r perfformiad yn uwch na'r canolrif.
- ac mae'r hyfforddiant anffurfiol wedi bod yn hwb sylweddol i'r niferoedd a bellach mae'r perfformiad yn uwch na'r canolrif. Er bod cefnogaeth i iechyd a llesiant yn dda, nodir bod capasiti o ran aelodau staff yn gwneud rhai meysydd o'r ddarpariaeth ychwanegol yn heriol iawn.
- Mae'r gwasanaeth wedi gwella'r digwyddiadau a'r gweithgareddau a gynigir yn 2017-18, gyda phresenoldeb ar gyfartaledd y pen y pedwerydd uchaf yng Nghymru erbyn hyn. Fodd bynnag, mae lefelau defnyddwyr, o ran ymwelwyr ffisegol, aelodaeth llyfrgell a nifer y llyfrau a fenthycwyd yn gyffredinol wedi dirywio.
- Mae'r cynnydd ym muddsoddiad y gronfa lyfrau wedi ein galluogi i gyrraedd y targed caffael; mae'r gwasanaeth yn parhau i berfformio'n dda mewn perthynas â darpariaeth y Gymraeg.
- Mae'r lefelau staffio'n is na'r lefelau a bennir, ond ar y cyfan mae wedi cynyddu, ac mae nifer y staff proffesiynol wedi'i gynnal ar lefelau 2016-17. Mae'r awgrym o'r

angen i adolygu nifer y staff proffesiynol yn y dyfodol yn destun pryder gan fod capasiti isel o ran staff eisoes yn creu heriau.

- Mae cyfanswm gwariant refeniw wedi cynyddu o gymharu â 2016-17, gyda gwariant y pen yr ail uchaf yng Nghymru.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys hawliadau craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau o'r effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi llwyddiannau yn erbyn y meysydd hyn. Mae asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod wedi'i ddarparu yn Adran 3.

2.1 Hawliadau craidd

Mae Gwynedd yn bodloni pob un o'r 12 hawliad craidd yn llawn. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid i hybu a darparu gwasanaethau, gan ddefnyddio ystadegau, data lleol, a gwybodaeth am y defnydd o lyfrgelloedd er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio a datblygu gwasanaethau. Yn gyffredinol, nod gwasanaethau yw bod yn eang ac amrywiol er mwyn diwallu anghenion y gymuned, gyda phwyslais ar ddarpariaeth ddigidol, gwybodaeth am iechyd a lles, defnydd hamdden a chymdeithasol, a darllen a dysgu. Darperir gwasanaethau, adnoddau a gweithgareddau diwylliannol o ansawdd uchel hefyd drwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae Gwynedd yn arwain ar fentrau cenedlaethol yn y maes hwn.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae yna 16 dangosydd ansawdd (DA), ac mae gan ddeg ohonynt dargedau hanfodol. O'r rhain, mae Gwynedd yn cyflawni 9 yn llawn, ac un yn rhannol.

Dangosydd Ansawdd	Wedi'i Fodloni?	
DA 3 Cymorth ar gyfer datblygiad unigolion:		Bodloni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓	
b) Llythrennedd gwybodaeth a hyfforddiant sgiliau	✓	
c) Cymorth E-lywodraeth	✓	
d) Datblygu darllenwyr	✓	
DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a llesiant		Bodloni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau Cymru	✓	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓	
iii) Casgliad iechyd a llesiant penodedig	✓	
iv) Gwybodaeth am ffordd o fyw ac ymddygiad iach	✓	
v) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a llesiant	✓	
DA 6 pob pwynt gwasanaeth statig yn cynnig digwyddiadau/ gweithgareddau ar gyfer defnyddwyr â gofynion arbennig	✓	Bodloni'n llawn
DA 7 Lleoliad pwyntiau gwasanaeth	✓	Bodloni'n llawn
DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Bodloni'n llawn
Caffael y pen	✓	

Dangosydd Ansawdd	Wedi'i Fodloni?	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau y pen	x	
DA 10 Adnoddau Cymraeg		Bodloni'n llawn
% y gyllideb a gafodd ei gwario ar ddeunyddiau Cymraeg	✓	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg y pen	x	
DA 11 Mynediad ar-lein:		Bodloni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngwrwyd	✓	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓	
DA 12 Cyflenwi ceisiadau		Bodloni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u bodloni o fewn 7 diwrnod	✓	
b) % y ceisiadau wedi'u bodloni o fewn 15 diwrnod	✓	
DA 13 Lefelau a chymwysterau staff:		Wedi'u bodloni'n rhannol
i) Aelodau staff y pen	x	
ii) Aelodau staff cymwys y pen	x	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	✓	
iv) Canran DPP	✓	
DA 16 Oriau agor y pen	✓	Bodloni'n llawn

Gwelwyd rhywfaint o welliannau dros flwyddyn ddiwethaf y pumed fframwaith gyda DA 3 erbyn hyn wedi'i gyflawni'n llawn, ac mae'r targed caffael y pen (DA 9) yn cael ei gyflawni erbyn hyn.

2.3 Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd â'r nod o asesu'r effaith y mae defnyddio'r llyfrgell yn ei chael ar fywydau pobl. Nid oes gan y dangosyddion hyn unrhyw dargedau, a dim ond unwaith yn unig dros gyfnod tair blynedd y fframwaith y mae'n ofynnol i awdurdodau gynnal arolygon ar gyfer DA 1. Mae ffigurau'r grynodeb felly (yr isaf, y canolrif a'r uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny gan awgrymu eu bod wedi cwblhau eu harolygon defnyddwyr yn ystod blwyddyn gyntaf y fframwaith. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, ac 1 yw'r awdurdod gyda'r sgôr uchaf.

Fe wnaeth Gwynedd gwblhau ei arolygon defnyddwyr yn ystod 2017, ac mae'r arolwg oedolion wedi'i rannu ar draws ymarferion arolwg gyda themâu llai, gan gynnwys TG a Dysgu, lechyd a Llesiant.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canol	Uchaf
DA 1 Gwneud gwahaniaeth					
b) % y bobl ifanc sy'n credu bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chanfod gwybodaeth:	92%	4/6	73%	94%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	92%	3/7	38%	90%	95%
DA 5 b) % mynychwyr sesiynau hyfforddi a ddywedodd bod yr hyfforddiant wedi eu helpu i gyflawni eu nodau:	98%	4/17	75%	98%	100%

Gofynnir i awdurdodau hefyd ddarparu hyd at bedwar astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Fe wnaeth Gwynedd ddarparu pedwar astudiaeth achos:

- Cyswllt Llyfrgell – siop papur newydd lleol yn cynnal gwasanaeth 'clicio a chasglu', defnyddwyr yn archebu llyfrau o bell, ac yn eu casglu / eu dychwelyd yn ystod oriau agor y siop. Mae'r gwasanaeth newydd sy'n seiliedig ar y gymuned wedi cael croeso brwd ac mae'r lleoliad yn fan cyfleus i gyfarfod, siopa a thrafod llyfrau, gan wella ymwybyddiaeth pobl o wasanaethau llyfrgell.
- Ewch Ar-lein - sesiynau grŵp wythnosol i wella hyder pobl wrth ddefnyddio cyfrifiaduron, a chynnig hyfforddiant penodol er mwyn diwallu anghenion unigol; mae'r sesiynau wedi helpu un cwpl aeddfed i deimlo'n ddiogel yn chwilio am wybodaeth a siopa ar-lein, ac erbyn hyn maen nhw'n defnyddio gwasanaethau ar-lein sydd wedi arbed arian a chynnig dewisiadau newydd iddynt.
- Gwasanaeth LINC - effaith gwasanaeth cydweithredu LINC sy'n rhannu adnoddau rhwng y cyhoedd, llyfrgelloedd Addysg Uwch ac Addysg Bellach yn y Gogledd, a mynediad i wneud cais am eitemau. Mae un myfyriwr rhan-amser sydd â phroblemau iechyd wedi cael budd sylweddol o'r gwasanaeth, gan ei galluogi i gwblhau ei hastudiaethau, a darparu cyswllt personol pan mae'n gaeth i'w chartref.
- Gwasanaeth Macmillan - effaith Gwasanaeth Gwybodaeth a Chymorth Macmillan; gan gynorthwyo pobl sydd wedi'u heffeithio gan salwch ac unigedd cymdeithasol gyda gweithgareddau amrywiol rhad ac am ddim mewn llyfrgelloedd lleol. I un defnyddiwr, mae wedi rhoi hwb i'w hyder, gan ddarparu cyswllt a rhyngweithio cymdeithasol cefnogol.

2.4 Dangosyddion a meincnodau ansawdd

Nid oes gan y dangosyddion sy'n weddill unrhyw dargedau, ond maen nhw'n caniatáu gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros amser, o gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Gwynedd ar gyfer 2017-18. Mae safleoedd wedi'u cynnwys allan o 22, ac 1 yw'r awdurdod gyda'r sgôr uchaf, a 22 yw'r isaf, oni nodir yn wahanol. Y dangosyddion lle mae llai na 22 awdurdod wedi cyflenwi data yw'r rhai lle nad oedd y data perthnasol ar gael i rai awdurdodau. Lle y bo'n bosibl, mae ffigurau o flwyddyn olaf y pumed fframwaith hefyd wedi'u cynnwys er mwyn cymharu; fodd bynnag, mewn rhai achosion mae newid yn y diffiniad neu broses o gyflwyno mesurau ychwanegol yn golygu bod gwneud cymariaethau'n anymarferol. Mae dangosyddion 'y pen' wedi'u cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canol	Uchaf	2016/17
DA1 Gwneud gwahaniaeth						
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio llyfrgell wedi eu helpu i ddatblygu sgiliau newydd:	89%	3/7	24%	83%	94%	44%
c) iechyd a llesiant	65%	4/7	33%	65%	95%	37%
d) dymunol, diogel a chynhwysol	98%	4/7	90%	98%	100%	100%
DA2 Boddhad cwsmeriaid						
a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau	89%	6/7	88%	91%	98%	89%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda'	100%	1/7	93%	99%	100%	100%
c) Cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda'	80%	4/6	74%	86%	94%	
d) 'da iawn' neu 'dda' ar y cyfan;	96%	5/7	93%	97%	99%	98%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed neu iau	9.1	2/6	8.5	9.1	9.2	9.3
DA5 Hyfforddiant i defnyddwyr						
a) mynychwyr y pen	12	20/22	10	32	238	3
c) hyfforddiant anffurfiol y pen	295	6/22	15	199	473	1
DA6 mynychwyr mewn digwyddiadau y pen	419	4/22	82	228	684	148
DA8 Defnydd o'r llyfrgell						
a) ymweliadau y pen	2,810	19/22	2,501	4,047	7,014	3,076
b) ymweliadau rhith y pen	983	9/22	243	866	2,211	862
c) benthydwyr gweithredol y pen	154	11/22	100	154	229	145
DA10 nifer yr eitemau Cymraeg sy'n cael eu benthyg y pen*	663	1/22	4	68	663	
DA11 Mynediad ar-lein						
b) Cyfrifiaduron y pen^	8	18/22	5	9	14	9
c) % yr amser sydd ar gael a ddefnyddir gan y cyhoedd	22%	17/22	14%	27%	67%	26%
DA13 Lefelau a chymwysterau staff						
(v) a) cyfanswm gwirfoddolwyr	8	20/21	3	31	196	8
b) cyfanswm oriau gwirfoddoli	300	19/21	40	1,346	11,939	300
DA14 Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant y pen	£16,852	2/21	£7,047	£11,915	£17,771	£14,061
b) % ar staff,	44%	21/21	44%	63%	75%	52%
% ar adnoddau gwybodaeth	11%	12/21	4%	13%	25%	13%
% ar gyfarpar ac adeiladu	20%	1/21	0%	4%	20%	20%
% ar gostau gweithredol eraill;	24%	7/21	0%	18%	37%	14%
c) gwariant cyfalaf y pen	£500	9/20	£0	£338	£17,432	£146
DA15 Cost net fesul ymweliad	£2.10	6/21	£1.24	£1.82	£2.41	
DA16 Oriau agor#						
(iii) a) % yr oriau y mae pwyntiau gwasanaeth statig wedi cau heb gynllunio	0.84%	20/21	0.00%	0.02%	1.28%	0.48%
b) % y galwadau symudol / danfon i gartrefi a gollwyd	1.36%	13/20	0.00%	0.35%	11.24%	0.11%

* fesul y boblogaeth o siaradwyr Cymraeg sy'n byw yno

^fesul 10,000 o'r boblogaeth sy'n byw yno

Mae'r safleoedd hyn wedi'u gwrth-droi, felly 1 yw'r awdurdod sydd a'r sgôr isaf (sy'n perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliadau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae adran hon yr adroddiad yn amlinellu perfformiad dan y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn (lle y bo'n berthnasol) â blwyddyn derfynol y pumed fframwaith (2016-17).

3.1 Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)

Fe wnaeth Gwynedd gynnal ei arolygon o ddefnyddwyr rhwng mis Mai 2017 a Chwefror 2018, gan adrodd gwelliannau mewn rhai meysydd yn yr arolygon a gynhaliwyd dan y pumed fframwaith. Roedd cyfraddau boddhad gyda'r gwasanaeth yn parhau'n uchel, gyda 89% o oedolion (wedi cynyddu o 44%) yn credu bod y llyfrgell wedi eu helpu i ddatblygu sgiliau newydd. Mae pob llyfrgell statig yn darparu ystod lawn o gymorth ar gyfer datblygiad unigol, a chymorth da ar gyfer iechyd a llesiant, er y nodir bod y gwasanaeth yn gweld bod peth o'r ddarpariaeth ychwanegol o ran iechyd a llesiant yn heriol ac yn anodd ei ddarparu'n foddhaol oherwydd lefelau staffio isel. Mae'r cynnydd mewn presenoldeb yn y sesiynau hyfforddi ffurfiol i'w groesawu, er bod y perfformiad yn parhau'n gymharol isel. Mae'r niferoedd a gynorthwyir gan hyfforddiant anffurfiol wedi cynyddu'n sylweddol a bellach mae'r perfformiad yn uwch na'r canolrif.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Gwynedd yn parhau i fodloni'r targed ar gyfer mynediad rhwydd i bwyntiau gwasanaeth, gyda 13 cangen yn gwasanaethu sir sydd â phoblogaeth gymharol fach. Mae'r gwasanaeth yn darparu digwyddiadau / gweithgareddau ar gyfer defnyddwyr gyda gofynion arbennig ym mhob pwynt gwasanaeth, ac mae wedi gwella ei ddarpariaeth yma'n fwy cyffredinol, ac mae llawer mwy o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal yn 2017-18. O ganlyniad, mae presenoldeb wedi gwella'n ddramatig, ac mae'r presenoldeb cyfartalog y pen y pedwerydd uchaf yng Nghymru erbyn hyn. Fel arall mae'r defnydd wedi gostwng yn gyffredinol o gymharu â 2016-17, gyda gostyngiadau yn nifer yr ymweliadau ffisegol, aelodaeth o'r llyfrgell a nifer y llyfrau a fenthycwyd. Nodir bod ffigurau ymwelwyr, sy'n gymharol isel, yn seiliedig ar sampl o arolygon ac o ganlyniad yn amcangyfrifon yn unig. Mae nifer y benthycwyr gweithredol wedi cynyddu, ac mae benthyciadau plant y pen y trydydd uchaf yng Nghymru.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)

Mae cynnydd yn y gronfa lyfrau yn 2017-18 wedi sicrhau y gellir cyflawni'r targed caffael, ac mae DA 9 wedi'i fodloni erbyn hyn. Mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni DA 10 hefyd, gyda'r cynnydd mewn buddsoddiad yma'n adlewyrchu ei bwyslais cryf ar ddarpariaeth y Gymraeg. Mae Gwynedd yn cofnodi'r buddsoddiad cyfrannol uchaf mewn adnoddau Cymraeg, a'r nifer yr eitemau Cymraeg sy'n cael eu benthycu y pen yng Nghymru, gan ddangos ei bod yn diwallu anghenion 65% o'i phoblogaeth sy'n siarad ac yn darllen Cymraeg. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gyrraedd y targedau ar gyfer cyflenwi ceisiadau, er bod y ffigurau yma ond yn cynnwys ceisiadau a fodlonwyd o fewn yr awdurdod, ac nid y rhai hynny a fodlonwyd drwy drefniadau i rannu stoc ar draws y chwech o awdurdodau Gogledd Cymru. Mae defnydd o Cyfrifiaduron Cyhoeddus wedi gostwng o gymharu â 2016-17, ac mae'r defnydd o TGCh wedi gostwng yn yr un modd, gyda'r perfformiadau yma'n is na'r canolrif ar gyfer Cymru. Mae'r gwasanaeth yn parhau i arbrofi gyda darpariaeth Wi-Fi ar ei gerbydau symudol, ond mae problemau gyda chysylltiad yn

effeithio ar ddibynadwyedd gwasanaeth fodd bynnag, a'r gobaith yw y bydd trefniadau mwy sefydlog ar waith yn 2018-19.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)

Mae lefelau staffio cyffredinol wedi cynyddu o gymharu â 2016-17, ac mae nifer y staff proffesiynol wedi parhau'r un fath, er bod Gwynedd yn is na lefelau'r targed yn y ddau faes. Mae'r gwasanaeth yn nodi y gall fod gofyn adolygu'r lefelau staff proffesiynol yn y dyfodol, er mwyn diogelu gwasanaethau rheng flaen. Mae arweinwyr cymwys yn eu lle, ac mae'r gwasanaeth yn bodloni'r gofynion o ran hyfforddiant a datblygiad staff. Nid yw'r sefyllfa ynghylch y defnydd o wirfoddolwyr wedi newid, ac mae'r gwasanaeth yn cefnogi nifer fach o gyfnodau o brofiad gwaith / lleoliadau. Noder nad oes capasiti i gefnogi rhaglen wirfoddoli ehangach.

Mae cyfanswm gwariant refeniw wedi cynyddu o gymharu â 2016-17, ac mae'r awdurdod yn cofnodi'r ail wariant uchaf y pen ar wasanaethau llyfrgell yng Nghymru. Mae cyfanswm cyfanredol yr oriau agor wedi gostwng fodd bynnag, yn dilyn cau pedair o lyfrgelloedd a gostyngiad yn oriau y lleill; er hynny mae'r targed wedi'i fodloni, ac ar lefel gymharol uchel.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad blynyddol, gofynnir i awdurdodau adrodd ar y ffordd y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Gwynedd yn amlinellu'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at themâu trawsbynciol Llywodraeth Cymru: Cymru ddiogel sy'n ffynnu, Cymru iach ac egniol, Cymru uchelgeisiol sy'n dysgu, Cymru unedig a chysylltiedig. Nodir rôl y gwasanaeth wrth hyrwyddo cynhwysiant digidol hefyd, ac mae Gwynedd yn parhau i gefnogi cynlluniau llyfrgell cydweithredol Cymru gyfan, gan weithio mewn partneriaeth agos â'r pum gwasanaeth llyfrgell arall yn y Gogledd.

5 Cyfeiriad yn y dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod yn y dyfodol a'r cynlluniau ar gyfer y llyfrgell dros y flwyddyn nesaf, mae'r gwasanaeth yn adrodd ar ddatblygiad dan ei strategaeth llyfrgell 2016-2020. Mae strwythur staffio newydd wedi'i gyflwyno, ac mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar fesur y galw gan ddefnyddwyr, ac adolygu systemau / prosesau er mwyn gwella effeithlonrwydd. Mae sicrhau bod gan staff y sgiliau diweddaraf wedi'i nodi fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer sicrhau y gellir darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Nodir bod dod â rhai cynlluniau allanol a gyllidir gan grant i ben yn effeithio ar y gallu i ddarparu ystod lawn o wasanaethau, er bod y gwasanaeth yn ymchwilio i gyfleoedd pellach ar gyfer partneriaethau. Mae strategaeth newydd ar gyfer y gwasanaeth eisoes yn cael ei chynllunio, ac mae'r cyfleoedd posibl yn cynnwys datblygu llyfrgelloedd fel hybiau cymunedol.

6 Casgliadau

Mae gwasanaeth llyfrgelloedd Gwynedd wedi parhau i berfformio'n dda, gyda gwelliannau mewn sawl maes. Mae presenoldeb yn yr holl sesiynau hyfforddi a gweithgareddau / digwyddiadau wedi cynyddu, gan adlewyrchu'n dda ar y gwaith o ddatblygu rhaglenni'r gwasanaeth, er bod yna awgrym yn barod y bydd yn her i'r gwasanaeth barhau i berfformio ar y lefel hon. Er gwaethaf y dirywiad yn rhai o'r dangosyddion ar gyfer defnyddwyr, mae cyfraddau boddhad â'r gwasanaeth yn parhau'n uchel. Mae'r cynnydd yn

y gyllideb ar gyfer deunyddiau ar gyfer 2017-18 wedi'i groesawu, ac mae'r targedau wedi'u cyrraedd, ac mae'r pwyslais yn parhau ar ddarpariaeth / adnoddau cyfrwng Cymraeg pan fo'r gwasanaeth yn arwain ar fentrau Cymru gyfan hefyd. Er bod lefelau staffio wedi gwella, nodir y gallai fod gofyn adolygu'r staffio proffesiynol yn y dyfodol - byddai hyn yn grym siom o gofio'r heriau presennol yn sgil y cyfyngiadau o ran staff, er y nodir y pwyslais ar hyfforddi a datblygu staff, a gwarchod gwasanaethau rheng flaen.